

Mentrwch adael i'ch porfa dyfu - a helpu ein peillwyr

- Mae lawntiau a llecynnau glas sy'n cael eu rheoli'n dda yn fannau gwych i ymlacio ac i chwarae. Fodd bynnag nid yw torri'r borfa'n rheolaidd yn llesol i fywyd gwyllt, gan nad yw'r planhigion yn cael cyfle i flodeuo ac i hadu.
- Os gadewir i'r borfa dyfu mae eithaf posibilrwydd y bydd planhigion megis llygad y dydd, dant y llew a meillion yn ymddangos yn y gwanwyn, ac mae'r rhain yn ffynhonnell fwyd bwysig i bryfed peillio.
- Mae gwenyn, glöynnod byw, gwyfynod a phryfed hofran yn bwydo ar neithdar a phaill blodau gwyllt. Yn sgil hynny mae'r rhain yn helpu i beillio blodau gwyllt drwy wasgaru paill o blanhigion i blanhigion.
- Mae'r peillwyr hyn yn helpu i gynnal yr amrywiaeth o blanhigion, cynefinoedd a bywyd gwyllt sydd gennym yng Nghymru, ond bellach mae bygythiad difrifol i'w bodolaeth.
- Nid oes yn rhaid inni golli ein lawntiau er mwyn helpu'r peillwyr. Gallwn ni i gyd helpu drwy gymryd camau syml! Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn gofyn ichi neilltuo rhannau bychan o'ch lawnt ar gyfer peillwyr - gallai hyn fod yn eich gardd eich hunan, ar ran o dir yr ysgol, mewn mynwentydd, o amgylch adeiladau cyhoeddus, mewn meysydd chwarae, neu o amgylch eich safle busnes.
- Gallwch chi helpu drwy wneud y canlynol:
 - creu llecynnau lle bydd uchder y borfa'n amrywio,
 - lleihau pa mor aml rydych yn torri'r borfa,
 - codi uchder y llafnau ar eich peiriant torri gwair,
 - defnyddio llai o wrteithiau a chwynladdwyr ar eich lawnt.
- Ceisiwch neilltuo rhan fach o'r lawnt lle y byddwch yn gadael i'r gwair dyfu a blodeuo - byddwch yn rhyfeddu at yr amrywiaeth o bryfed fydd yn byw yn eich dŵl fach.

Byddwch yn gallu gwrando ar sioncod y gwair, gwyllo'r gwenyn a chyfrif lliwiau'r glöynnod byw. Beth am ddefnyddio'r amser ychwanegol fydd gennych i gofnodi faint o blanhigion a chreaduriaid sy'n ymsefydlu yn eich dŵl fach. Rhowch wybod inni beth welwch chi yno, a byddem yn falch o weld eich lluniau!

- Anfonwch eich lluniau, gan gofio cynnwys enw neu rif eich tŷ ynghyd â'ch côd post, at:
bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk a byddwn yn gallu mapio eich holl ddolydd bychan chi. Gyda'n gilydd gallwn greu Sir Gaerfyrddin sy'n werth ei gweld!

